# heddwch

haf 2005
rhif 36
am ddim (neu gyfraniad)

cylchgrawn CND Cymru


# yr unig ffordd i atal pob trais:

# heddwch cyfiawnder goddefgarwch

## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**


**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**

**Golygydd:**
Jill Stallard
(01495) 773 180
jill@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkite@onyxnet.co.uk


Nid gwylwyr goddefol sy'n gorfod ufuddhau'n ddof mohonom.




Mabon ap Gwynfor a Jill Evans Mis Mawrth 2005

# Mae trais yn magu trais

Ar Awst y 6ed am 8.15 y bore bydd munud o dawelwch yn Ninas Hiroshima, fel sydd pob blwyddyn ar yr union adeg yna. Dyma pryd disgynodd y bom atomic cyntaf ar y Ddinas 60 mlynedd yn ol, a deuddydd wedi hynny ar Ddinas Nagasaki. Bydd y Seremoni Cofiant Heddwch yn hynod o ingol eleni gyda miloedd o bobl, o Brif Weinidog Japan ac Ysgrifennydd-Cyffredinol y CU i gynrychiolwyr y teuluoedd a effeithiwyd, yn ymuno i glywed Maer Hiroshima yn galw am ddileu arfau niwclaer ac i ddatrys gwrthdaro yn heddychlon, fel y gwnaeth pob blwyddyn ers 1947.

Yn Senedd Ewrop fe osodais ddatganiad ar y cyd gyda grwpiau gwleidyddol eraill i goffhau'r digwyddiad a chollfarnu erchylldra rhyfel a'i effeithiau ac fe fydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r seremoni.Mae 237,062 enw ar Gofrestr Dioddefwyr Meirw Bomiau Atom Hiroshima. Dyma ddioddefwyr diniwed rhyfel niwclear, o drais swyddogol gwledydd.

Ac mae'r rhestr enwau a lluniau teuluol y dioddefwyr diniwed yn Llundain rydyn ni wedi gweld dros yr wythnosau diwethaf yn tanlinellu'r neges bod trais yn arwain at fwy o drais ac yn creu cylch dieflig o gasineb ac ofn.Roedd y fath wrthgyferbyniad rhwng y dinistr difeddwl yn Llundain a'r protest heddychlon i gael byd gwell yng Nghaeredin y cymerais rhan ynddi'r penwythnos cynt, cyn cynhadledd y G8.

Roedd yn ddigwyddiad mor bositif, gyda channoedd o bobl o Gymru yno ar rhan mudiadau ac fel unigolion, yn teithio lan ar fysys a trenau dros nos, yn gwersylla neu ddim yn cysgu o gwbl! A chyda pobl a deithiodd yno o hyd a lled Ewrop fe greuon ni gylch gwyn o obaith o amgylch Caeredin. Y neges oedd i rhoi terfyn ar dlodi ac roedd galwad llethol dros heddwch a chyfiawnder.

**Ym Magdad, Caeredin, Llundain, Hiroshima, Nagasaki ac ar draws Cymru heddiw, yr un yw'r neges.**

**Jill Evans ASE Cadeirydd CND Cymru**

heddweithredu:**Da chi, anogwch eich AS i arwyddo'r Cynnig Seneddol hwn, rhif 129, ar Atal Ymlediad Niwclear: Y DU A'R CYTUNDEB ATAL YMLEDIAD NIWCLEAR Fod y tw hwn yn croesawu datganiad agoriadol dirprwyaeth y DU i Gynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear yn y Cenhedloedd Unedig ar y 5ed o Fai o'n 'haddewid diamwys i gwblhau dileu arfogaethau niwclear'; yn cydnabod fod y fath ymrwymiad teilwng yn anghymharus â chynlluniau i adeiladu olynydd i'r system taflegrau niwclear Trident presennol; ac yn galw ar y Llywodraeth i roi'r gorau unrhyw gynlluniau o'r fath.**

**Alan Simpson MP**

# BYTH ETO!



## 6ed Awst 1945 Hiroshima, Japan

**Ffrwydrodd bom niwclear yr U.D. am 8.15am**

- Ffugenw: 'Little Boy'.
- Ymholltiad wraniwm yn defnyddio 50–70 cilogram o wraniwm wedi ei gyfoethogi.
- Cynnyrch ffrwydrol: cyfwerth â mwy na 15,000 tunnell o TNT.
- Lladdwyd o leiaf 75,000 ar unwaith gan y gwres a'r danchwa.
- Bu farw o leiaf 200,000 o fewn misoedd, o ymbelydredd ac effeithiau eraill.
- Cafodd 10 cilomedr sgwâr o'r ddinas ei difodi.
- Ddeg eiliaid wedi i'r bom ffrwydro, dileodd tonnau sioc bopeth o fewn cwmpas o bedwar cilomedr.

**Amcangyfrifir fod cymaint â 600,000 o bobl wedi marw'n ddiweddarach neu wedi dioddef effeithiau corfforol tymor-hir bomiau Hiroshima a Nagasaki.**

## 9fed Awst 1945 Nagasaki, Japan

**Ffrwydrodd bom niwclear yr U.D. am 11.02am**

- Ffugenw: 'Fat Man'.
- Ymholltiad plwtoniwm, yn defnyddio 6.2 cilogram o blwtoniwm.
- Cynnyrch ffrwydrol: cyfwerth â 21,000 tunnell o TNT.
- Lladdwyd o leiaf 40,000 ar unwaith gan y gwres a'r danchwa.
- O leiaf 75,000 wedi marw erbyn diwedd 1945 o ymbelydredd ac effeithiau eraill.
- Fe'i ffrwydrwyd 500 medr uwchlaw Nagasaki gan greu cwmpas rhyw gilomedr o faint o ddinistr llwyr.

**Mae cynnyrch ffrwydrol yr holl ergydion niwclear sydd wedi eu lleoli ar longau tanfor Trident Prydain yn gyfanswm o ryw 14.4 megaton, yr un faint â 1,000 o fomiau Hiroshima, fwy neu lai.**

# Felly roeddech chi'n credu fod yn rhaid i UDA ollwng bomiau atomig i ddod â'r Ail Ryfel Byd i ben...

## doedd y bobl yma ddim :



### Y Cadfridog Dwight Eisenhower

Goruchaf Gadlywydd Lluoedd y Cynghreiriaid 1945 Arlywydd UDA 1952-58

*"Roedd Japan ar yr union foment honno yn chwilio am ryw ffordd o ildio heb golli gormod o wyneb. Doedd dim rhaid eu bwrw â'r peth ofnadwy hwnnw."*



### Y Cadfarsial Bernard Montgomery o Alamein

Goruchaf Gadlywydd Lluoedd Prydain 1945

*"Yn fy marn i, doedd dim angen gollwng y ddau fom atomig ar Japan ym mis Awst 1945 ac na allaf gredu fod hynny'n beth iawn... roedd gollwng y bomiau'n gamgymeriad gwleidyddol mawr ac y mae'n enghraifft flaenllaw o'r dirywiad mewn safonau moesol mewn dulliau ymladd rhyfel modern."*



### Syr Winston Churchill

Prif Weinidog Prydain 1940-1945

*"Byddai'n gamgymeriad tybio y penderfynwyd tynged Japan gan y bom atomig. Roedd yn sicr o gael ei threchu cyn i'r bom cyntaf ddisgyn... "*



### Y Llyngesydd William Leahy

Pennaeth Staff yr Arlywydd Truman 1945

*"Yn fy marn i, doedd defnyddio'r arf barbaraidd hwn yn Hiroshima a Nagasaki o ddim cymorth materol yn ein rhyfel yn erbyn Japan. Roedd y Japaneaid eisoes wedi cael eu trechu ac yn barod i ildio... Drwy i ni fod y cyntaf i'w ddefnyddio, roeddem wedi mabwysiadu safon foesol barbariaid yr Oesoedd Tywyll."*



### Yr Athro J.K.Galbraith

Ymchwilydd Swyddogol, Japan 1945

*"Syrthiodd y bomiau wedi i Lywodraeth Japan benderfynu ildio. Cytunwyd y byddai'n rhaid dwyn y rhyfel i ben mewn cyfarfod rhwng aelodau allweddol o Oruchaf Gyngor Cyfarwyddo Rhyfel Japan a'r Ymerawdwr ar Fehefin yr 20fed 1945, chwe wythnos gyfan cyn dinistr Hiroshima."*

### Arolwg Bomio Strategol yr Unol Daleithau 1946

*"Yn sicr cyn Rhagfyr yr 31ain 1945, byddai Japan wedi ildio hyd yn oed pe na chawsai bomiau atomig eu gollwng, hyd yn oed pe nai bai'r Rwsiaid wedi ymuno â'r rhyfel, a hyd yn oed pe na bai goresgyniad wedi cael ei gynllunio neu ei ystyried."*

### J. Samuel Walker

Prif Hanesydd, Comisiwn Rheolaethol yr Unol Daleithau

*"Mae consensws ymhlith ysgolheigion nad oedd angen y bom er mwyn osgoi goresgyn Japan. Mae'n glir fod dewisiadau eraill yn bodoli, a bod Truman a'i gynghorwyr yn gwybod hynny."*


**Heddiw mae rhyw 36,000 o arfau niwclear yn arfogaethau'r byd, yn bennaf yn y pum gwlad sydd ag arfau niwclear - UDA, Prydain, Rwsia, Ffrainc a China. Amcangyfrifir fod gan y gwledydd hyn 2,667-gwaith grym yr holl arfau a ddefnyddiwyd yn ystod chwe blynedd yr Ail Ryfel Byd yn ei grynswth.**

**Dywed arysgrif ar y Senotaff Coffa ym Mharc Coffa Heddwch Hiroshima:**

***"Boed i bob enaid yma orffwys mewn hedd; oblegid wnawn ni ddim ailadrodd yr anfadwaith"***

**Mae'r "ni" yn yr arysgrif yn cyfeirio at bawb a phob un ohonom.**


# Sadako a'r 1,000 o grehyrod papur



Cyhoeddodd CND Cymru (Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear) a Chymdeithas y Cymod y datganiad isod yn y wasg Gymraeg ar y 6ed o Awst i nodi trigain mlwyddiant bomio Hiroshima â bom atomig . Bwriad y datganiad oedd nodi'r achlysur drwy helpu i greu dealltwriaeth wirioneddol o arswyd arfau niwclear a pheryglon polisïau 'amddiffyn' cyfredol Prydain o safbwynt defnyddio arfau o'r fath.

Merch Siapaneaidd oedd Sadako Sasaki a oedd yn byw ger Pont Misasa yn Hiroshima. Dim ond dwy flwydd oed oedd hi pan ollyngwyd y bom atomig ar Hiroshima ar y 6ed o Awst 1945. Wrth iddi dyfu'n hyn, roedd Sadako yn ferch ddewr, gryf ac athletig. Ym 1954, yn un ar ddeg oed, pan oedd yn ymarfer ar gyfer ras bwysig, cafodd bwl o'r bendro a syrthio ar lawr. Darganfuwyd fod lewcemia ar Sadako, sef "afiechyd y bom atomig".

Dywedodd ffrind gorau Sadako wrthi am hen chwedl Siapaneaidd a oedd yn dweud y câi unrhyw un fyddai'n plygu mil o grehyrod papur origami ei dymuniad. Gobeithio Sadako y byddai'r duwiau'n caniatáu iddi ddymuno gwella, er mwyn iddi allu rhedeg eto. Treuliodd bedwar mis ar ddeg yn yr ysbyty, a phlygodd fwy na 1,300 o grehyrod papur cyn marw'n ddeuddeg oed. Byddai'n plygu'r crehyrod o bapur lapio ei photeli moddion ac unrhyw bapur arall y gallai ddod o hyd iddo yn y gobaith y byddai'n gwella. (Fersiwn boblogaidd o'r stori yw na lwyddodd i gyrraedd ei nod o blygu 1,000 o grehyrod, gan blygu dim ond 644 cyn marw, a bod ei ffrindiau wedi cwblhau'r 1,000 a chladdu'r cwbl gyda hi.)



Ysbrydolwyd ffrindiau a chyfoedion ysgol Sadako gan ei dewrder a'i chryfder, ac aethant ati i gasglu cyfrol o'i llythyron a'i chyhoeddi. Dechreusant freuddwydio am godi cofeb i Sadako a'r holl blant a laddwyd gan y bom atomig. Helpodd pobl ifanc ledled Japan i godi arian ar gyfer y project.

Ym 1958, dadorchuddiwyd cerflun o Sadako yn dal crëyr aur ym Mharc Heddwch Hiroshima. Gwnaeth y plant ddymuniad hefyd sydd mewn arysgrif wrth droed y cerflun ac sy'n dweud:

"Dyma ein cri, Dyma ein gweddi, Heddwch yn y byd".

Ers hynny, mae'r crëyr papur wedi mynd yn symbol rhyngwladol o heddwch a gobaith, a bydd pobl ym mhedwar ban y byd yn plygu crehyrod papur a'u hanfon at gofeb Sadako yn Hiroshima.



Sadako (yn y canol) a'i ffrindiau

## Hiroshima a Nagasaki BYTH ETO

**Ar y 6ed o Awst 1945, gollyngwyd bom atomig ar ddinas Hiroshima yn Japan,ac un arall, dridiau yn ddiweddarach, ar Nagasaki. Lladdwyd mwy na 250,000 o bobl gan wres, tanchwa, tân ac ymbelydredd. Yn groes i'r honiad ar y pryd, nid y bomiau ddaeth â'r rhyfel i ben.**

*"Byddai'n gamgymeriad tybio y penderfynwyd tynged Japan gan y bom atomig.Roedd yn sicr o gael ei threchu cyn i'r bom cyntaf ddisgyn."*
(Winston Churchill, Prif Weinidog Prydain)

*"Roedd Japan ar yr union foment honno yn chwilio am ryw ffordd o ildio heb golli gormod o wyneb. Doedd dim rhaid ei bwrw â'r peth ofnadwy hwnnw."*
(Arlywydd yr UD, Dwight Eisenhower)

Mae cynnyrch ffrwydrol y 200 o ergydion niwclear sydd wedi eu lleoli ar bedair llong danfor Trident Prydain yn gyfanswm o ryw 14.4 megaton, sydd fwy neu lai'n 1,000 gwaith maint y bom a ollyngwyd ar Hiroshima.

Testun pryder dwys i ni yw'r ffaith fod y llywodraeth, yn hytrach na chymryd camau i ddileu ei harfogaeth niwclear fel yr addawodd Prydain wneud ym 1968 wrth gytuno i arwyddo'r Cytundeb Atal Ymlediad:

- yn ystyried system arfau newydd i gymryd lle system arfau niwclear Trident,
- wedi cychwyn ar ddatblygiadau yn y Sefydliad Arfau Atomig yn Aldermaston i baratoi ar gyfer cynhyrchu'r arfau niwclear newydd hynny, a'i bod
- wedi dweud y byddai'n barod i ddefnyddio arfau niwclear i daro'n gyntaf, hyd yn oed yn erbyn gwlad heb arfau niwclear.

Mae'r datblygiadau yma'n tanseilio'n hymrwymiadau cytundebol rhyngwladol, yn bygwth heddwch y ddaear, ac yn gwneud ymlediad a defnydd arfau niwclear yn debycach.

Wrth i ni goffáu trigain mlwyddiant yr ymosodiadau niwclear ar Hiroshima a Nagasaki, galwn ar y llywodraeth Brydeinig i ymrwymo i beidio â defnyddio, bygwth defnyddio neu ddatblygu arfau niwclear newydd, ac i gymryd camau i'w dileu yn ddiymdroi.

# grwpiau ledled Cymru



## Mae Heddwch a Chyfiawnder Bro Emlyn

yn cwrdd yn Swyddfa Plaid Cymru, Castell Newydd Emlyn bob nos Wener am 7.30 p.m. Fis Gorffennaf, cyflwynodd y grwp ddeiseb ynglyn â rhoi terfyn ar dlodi byd-eang i'r Cynulliad Cenedlaethol i gyd-daro ag uwch-gynhadledd y G8. Yn y cyfamser, mae'r grup wedi bod yn casglu arian ar gyfer clinig brys symudol yn Nablus, Palesteina. Mae Cymdeithas Cymorth Meddygol Palesteina yn ceisio arian am flwyddyn er mwyn gweithredu'r clinig symudol, i gefnogi ei weithgareddau Ymateb Brys a Gofal Iechyd sylfaenol. Mae sefyllfa iechyd Palesteina wedi gwaethygu'n ddifrifol o ganlyniad i gyfyngiadau caeth ar deithio; atal neb rhag bod allan liw nos; tlodi; camdriniaeth gorfforol gan luoedd meddiant Israel; ac adeiladu'r Wal Wahanu.

**Cysyllter â: Graham Lang (01559) 370 991**
**graham@bepj.org.uk**
**www.newcastle-emlyn.com/stopwar/**

## Aeth Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Bangor

fel llawer o grwpiau eraill yng Nghymru, â bws i brotestiadau Uwchgynhadledd y G8 yn yr Alban ym mis Gorffennaf. Roedd yn bleser mawr ganddynt hefyd groesawu'r canwr disglair o'r UD, David Rovics, am noson i godi arian ar gyfer Ymgyrch Olewydd y Palestiniaid, sy'n gweithio i sicrhau fod ffermio coed olewydd yn parhau mewn modd cynaliadwy ac yn ail-blannu coed olewydd. Y cerddorion cefnogol oedd Valleum a PandaBeats.

Mae'r grwp hefyd yn ymgyrchu i atal y dinesydd Prydeinig Babar Ahmed rhag cael ei estraddodi i UDA. Cafodd ei restio a'i ollwng yn rhydd heb gyhuddiad ym Mhrydain, am ei fod wedi codi arian ar gyfer elusennau yn Chechnya ac Afghanistan, mae'n debyg. Yn awr, mae'r llywodraeth Brydeinig yn bwriadu ei estraddodi i UDA i wynebu cyhuddiadau tebyg, er gwaetha'r ffaith nad oes yr un cyhuddiad yn ei erbyn hyd yma. Mwy o wybodaeth ar: www.freebabarahmad.com

**Cysyllter â: Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor: (01248) 490 715 bangorpeace@dslw.net**

## Cynhaliodd Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Brycheiniog

ddigwyddiad Guyl Ifan yn Theatr Brycheiniog i godi arian ar gyfer y Cyngor Ffoaduriaid. Roedd yn gyngerdd ag amrywiaeth eang o berfformwyr, yn cynnwys y bendigedig Tracy Curtis o Rydaman, sy'n canu caneuon protest sy'n ffyrnig ac eto'n dyner rywsut – mae'n werth cofio amdani os ydych yn bwriadu llwyfannu digwyddiad yng Nghymru!

Cefnogodd y grwp Ganolfan Celfyddydau Byw Crucywel hefyd yn eu harddangosfa 'Dathlu Bywyd', lle danfonwyd defnyddiau peintio at bobl ifanc yn Uganda ac ym Mhalesteina. Arddangoswyd y gwaith celf a ddeilliodd o hynny, a oedd yn adlewyrchu eu bywydau bob-dydd, yn ystod Guyl y Ddraig yn y dref.

**Cysyllter â: Mike Gatehouse (01874) 658 564**
**BPJG@phonecoop.coopBPJG**

## Mae Grŵp Heddwch Conwy

yn cynnal 'Cynhadledd Rhannu Heddwch' yn Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Stryd Mostyn, Llandudno ar y 24ain o Fedi 10am-3pm. Mae'r grwp yn gobeithio y bydd hwn yn gyfle i unigolion a mudiadau sy'n hyrwyddo heddwch a chyfiawnder i gwrdd a rhannu gwybodaeth a chynlluniau. Croeso i bawb. Os gallwch ddod, da chi, cysylltwch â Grwp Heddwch Conwy.

**Graham Morgan Postcards, Blwch S.P. Box 80, Llandudno, Conwy LL30 1WE**
**morganpostcards@btinternet.com**

## Mae Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth

yn bwriadu bod yn Ffair y Glas gydag CND Cymru ym mis Medi. Os hoffech roi help llaw, da chi, cysylltwch â **Lotte Reimer (01970) 610 185 lotte.reimer@tiscali.co.uk neu Jill Stallard CND Cymru (gweler Cysylltiadau tud. 18)**

## Cynhaliodd CND Abertawe

eu harwerthiant planhigion yn gynnar ym mis Mai, gan godi £100 tuag at apêl Plant Chernobyl. Byddant yn coffáu Hiroshima wrth goeden 'y colomennod' yng Ngerddi Singleton, Abertawe ar y 6ed o Awst, 8pm. **Cysyllter â Mike Hayes 01792 367807**

## Clymblaid Heddwch a Chyfiawnder Pen-y-bont ar Ogwr

Ym mis Gorffennaf, creodd Clymblaid Heddwch a Chyfiawnder Pen-y-bont ar Ogwr, ar y cyd ag Oxfam, ruban gwyn anferth, wythfed milltir o hyd, ac amgylchynu rhan o Ben-y-bont. Gan ddechrau y tu allan i siop Oxfam, roedd y rhuban, gyda neges yr ymgyrch arno
**(MAKE POVERY HISTORY - RHOWN DERFYN AR DLODI)** yn ymestyn ar hyd Stryd Wyndham, o gwmpas Swyddfa'r Post, ac yn ôl ar hyd Stryd y Farchnad. Dywedodd Pete Thompson, aelod o Grynwyr Pen-y-bont, wrth y wasg leol:

*"Roeddem am roi cyfle i'r bobl hynny ym Mhen-y-bont nad oedden nhw'n gallu mynd i Gaeredin neu'r Cyngerdd Live8, i ymuno yn y gweithredoedd a oedd yn digwydd ledled Cymru, y DU ac ym mhedwar ban y byd i nodi Uwchgynhadledd y G8. Dywedodd Nelson Mandela os gallwn roi terfyn ar dlodi yn 2005 y gallwn oll sefyll â'n pennau'n uchel. Safodd mwy na hanner cant o bobl yn y glaw ym Mhen-y-bont, â'u pennau'n uchel, i ymuno â'r alwad i roi terfyn ar dlodi'r byd."*

Mae Clymblaid Pen-y-Bont dros Heddwch a Chyfiawnder yn cwrdd ar y cyd ag CND Pen-y-bont am 7.30 ar nos Fawrth gyntaf pob mis yn Nhy Cwrdd y Crynwyr, 87 Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr.

**Cysyllter â: Pete Thompson ar 01656 648817**



ffoto: Pete Thompson

Pen-y-bont ar Ogwr

# Menywod mewn Du, Caerdydd Na i Ryfel, Na i Dlodi



**Cynhaliwyd gwylnos ddiwethaf Menywod mewn Du ar yr un diwrnod â gwrthdystiad Terfyn ar Dlodi y G8 yng Nghaeredin a'r cyngherddau Live8. Gan gysylltu â'r thema honno, buom yn dal baner syml yn dwyn y geiriau 'Na i Ryfel, Na i Dlodi', cysylltiad sydd fel pe bai wedi bod ar goll yn ystod llawer o'r ymgyrch yma.**

Mae nodau penodol yr ymgyrch, sef Cyfiawnder Masnach, Dileu'r Ddyled a Mwy a Gwell Cymorth wedi ennyn trafodaeth eang. Bu peth beirniadu ar yr hyn a welir fel agweddau nawddoglyd y Gorllewin, sy'n trin Affricaniaid fel dioddefwyr, yn hytrach na ymbweru Affrica i'w helpu ei hun, amheuaeth ynglwn â chymorth sy'n cael ei wastraffiu (neu ei ddwyn) oherwydd llygredd ar y lefel uchaf, dadlau ynglwn â chymorth wedi ei ddatganoli a'i weinyddu ar lefel leol ar y naill law, neu wedi ei ganoli drwy strwythurau gwladol, ar y llall.

A ninnau wrthi'n ymgyrchu dros heddwch, teimlwn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar y gwastraff aflednais a gynrychiolir gan wario milwrol ac ar arfau. Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan SIPRI (Sefydliad Ymchwil Heddwch Rhyngwladol Stockholm), amcangyfrifir fod gwariant milwrol y byd yn 2004 yn rhyw $975 biliwn o'i fesur yn ôl prisiau a chyfraddau cyfnewid 2003, neu $1035 biliwn (h.y. mwy na $1 triliwn) mewn doleri cyfredol, a chafodd $455 biliwn o hyn ei wario gan America. Y swm a wariwyd ar gymorth yn yr un cyfnod oedd $76.6 biliwn.

Mae adroddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Polisi, ar fethiant y 'trawsnewid' yn Irac, yn gwneud y pwynt y gallai'r arian sydd eisoes wedi cael ei wario ar y rhyfel anghyfreithlopn yn erbyn Irac, fod wedi haneru newyn yn y byd a thalu am foddion HIV/AIDS, brechu plant, ac anghenion dur glân a charthffosiaeth yn y byd sy'n datblygu am fwy na dwy flynedd. Mae'r ffigur yn crybwyll y swm a wariwyd gan America ar y rhyfel yn erbyn Irac fel $151.1bn – heddiw, mae bron yn $179bn (brawychwch eich hun drwy fynd i wefan http//costofwar.com a gwyliwch gost y rhyfel yn dringo'n uwch ac yn uwch o flaen eich llygaid.

Heblaw am anlladrwydd cyffredinol gwario cymaint mwy ar anafu a lladd pobl nag ar eu cefnogi, mae'r fasnach arfau'n ofnadwy o berthnasol i sefyllfa Affrica heddiw. Mewn erthygl yn y *New Statesman*, mae'r sylwebydd ardderchog Michela Wrong yn dyfynu academydd o Nigeria, Herbert Ekwe-Ekwe sy'n condemnio 'gwladwriaethau hil-laddol Affrica. Ym marn hwnnw, wfft i gymorth – y peth mwyaf defnyddiol y gallai'r Gorllewin ei wneud fyddai gwahardd gwerthu arfau i Affrica, gan derfynu'r cyflenwad sy'n caniatáu i arweinwyr treisgar barhau mewn grym. Wrth gwrs bod angen i ni gynyddu cymorth, dileu dyled, peidio â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn allforion Affrica er mwyn annog cyw-economïau – ond rhaid i ni hefyd ymgyrchu'n fwy egnïol byth yn erbyn y fasnach arfau ffiaidd sy'n tanseilio pob bwriad da.

(gweler 'Ban arms sales to Africa – nothing else required' www.opendemocracy.net/home/index.jsp)

heddweithredu: **Gwylnos Menywod mewn Du Caerdydd: Sadwrn cyntaf pob mis, yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd (nesaf, 6ed Awst, 3ydd Medi). Cysyllter â: Jill (01443) 473 592 neu Siân ar sian@derwen.demon.co.uk**

ffoto: Pete Thompson

ddiarfogi niwclear byd-eang

# Arolwg Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear 2005

**Gwelodd Arolwg Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY) 2005 ymdrechion gan yr UD a Phrydain i wthio diarfogi niwclear a'u hoblygiadau eu hunain yn y cyswllt hwnnw i'r ymylon, a chanolbwyntio'n llwyr ar fygythiadau tybiedig Iran a Gogledd Korea.**

Haerai datganiad yr UD i'r gynhadledd fod 'y Cytundeb yn wynebu'r her fwyaf difrifol yn ei hanes oherwydd enghreifftiau o anufudd-dod'. Byddwn yn cytuno â hynny, ond nid o'r cyfeiriadau a awgrymir gan yr UD. Daw problem anufudd-dod o du cwbl wahanol. Mae Erthygl VI o'r Cytundeb yn galw am gamau tuag at ddiarfogi niwclear gan wledydd sydd eisoes ag arfau niwclear. Yn wir, yn y Gynhadledd Adolygu ddiwethaf yn 2000, cryfhawyd hyn drwy groesawu eu 'haddewidion diamwys' i fynd ati i lwyr ddileu eu harfogaethau niwclear.

## 'Wrthwynebu Ymlediad'

Ers 2000, nid yw'r gwledydd niwclear wedi gwneud dim i wireddu hyn. Mae'n amlwg fod methiant yr UD, Prydain a'r gwledydd niwclear eraill i ddiarfogi yn enghreifftiau difrifol o anufudd-dod. Yn wir, mae'r UD a Phrydain wedi ceisio symud goliau'r Cytundeb er mwyn anwybyddu'r ffaith fod diarfogi niwclear yn ofyniad, ac i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar atal ymlediad. Nid yw llywodraeth y DU yn sôn am 'atal ymlediad' mwyach oherwydd mae hynny'n awgrymu diarfogi. Yn hytrach, mae'n cyfeirio at 'wrthwynebu ymlediad', gan ganolbwyntio'n llwyr at atal gwledydd newydd rhag caffael arfau niwclear. Mae CND yn gryf yn erbyn y ffordd hon o fynd ati, oherwydd bydd canolbwyntio ar ddim ond un ochr i'r hafaliad yn achosi dicter ac ansicrwydd ymhlith gwledydd heb arfau niwclear ac, mewn byd mwyfwy anwadal, gallai ysgogi'r union ymlediad niwclear rydym yn ceisio'i osgoi. Dim ond mynd ati'n gytbwys i weithredu'r CAY, gan gyflawni'r fargen wreiddiol i ddiarfogi ac atal ymlediad ill dau, a all ddod â heddwch a diogelwch gwirioneddol i'r byd.

## Rhagrith Niwclear

Yn achos Prydain, nid dim ond mater o fethu diarfogi yw hyn: mae yma berygl gwirioneddol o ymlediad niwclear. Bydd Trident yn dod at derfyn ei fywyd gweithredol erbyn diwedd y degawd nesaf. Er mwyn cyflawni'n dyletswyddau o dan y Cytundeb, rhaid i ni gael gwared ohono cyn y dyddiad hwnnw; yn sicr, ni ddylem brynu fersiwn newydd neu ddatblygu unrhyw fathau eraill o arfau niwclear newydd yn ei le. Mae'n glir, fodd bynnag, fod Mr Blair o blaid cael un newydd, ac mae rhai papurau hyd yn oed wedi adrodd fod y penderfyniad wedi cael ei wneud. Does bosib nad mater i'r Senedd Prydeinig yw hwn, gan ystyried ein holl oblygiadau cytundebol rhyngwladol yn llawn? Gyda'r buddsoddi a'r datblygu sy'n digwydd yn y ffatri arfau niwclear Brydeinig yn SAA Aldermaston ar hyn o bryd, ynghyd ag awgrymiadau fod y llywodraeth wedi dweud y byddai'n barod i ddefnyddio arfau niwclear, hyd yn oed yn erbyn gwlad heb arfau niwclear – sydd yn anghyfreithlon o dan y ddeddf ryngwladol – mae'n amlwg fod llawer iawn yn digwydd sy'n destun pryder i ni. Ni fydd safonau deublyg a rhagrith niwclear ar ran y llywodraeth yn arwain at fyd sefydlog a diogel. **Mae CND yn annog pawb sy'n cefnogi heddwch i gymryd y mater hwn o ddifri calon, a gwrthwynebu arfau newydd yn lle Trident ar bob lefel mewn cymdeithas.**

**Kate Hudson, Cadeirydd CND Prydeinig - www.cnduk.org**

# Gwynfor 1912 - 2005 tangnefeddwr

**Ym mis Ebrill, talodd y mudiad heddwch yng Nghymru deyrnged i Gwynfor Evans, heddychwr ac ymgyrchydd diflino dros heddwch a chyfiawnder. Bu'n aelod o CND Cymru ers blynyddoedd lawer.**

Fel ysgrifennydd Heddychwyr Cymru, chwaraeodd ran bwysig yn y gwrthsafiad yn erbyn ymgais y fyddin i droi 50 o deuluoedd allan o'i cartrefi a meddiannu Mynydd Epynt, lle sefydlwyd meysydd tanio ar gyfer hyfforddi milwrol ym 1941. Roedd yn adnabyddus fel un a ddadleuai o blaid gweithredu uniongyrchol di-drais mewn protestiadau dros heddwch a chyfiawnder yn ogystal â'r iaith Gymraeg. Yn y 1960au, aeth i Cambodia i fod yn 'darian ddynol'; roedd yn weithgar dros ben yn yr achos gwrth-niwclear am flynyddoedd maith a bu'n gweithio i wireddu'r weledigaeth o 'Gymru Ddi-niwclear'. Roedd hefyd yn un o sefydlwyr 'Pont', sy'n helpu i feithrin dealltwriaeth rhwng cymunedau Cymreig a rhai sy'n symud i mewn i Gymru.

Er gwaethaf ei lesgedd a'i waeledd, siaradodd Gwynfor yn gryf yn erbyn y



rhyfel diweddar yn Irac. Mae plant ac wyrion Gwynfor wedi dilyn yn ôl ei draed a pharhau â'i frwydr ddi-drais dros heddwch a chyfiawnder.

Cyfarfu Jill Evans ASE, Cadeirydd CND Cymru, â Gwynfor llynedd i drafod yr anawsterau roedd y llywodraeth Brydeinig yn eu rhoi yn ei ffordd wrth iddi geisio mynd ar ymweliad swyddogol ag Irac yn ystod y rhyfel. Meddai Jill:

*"Rydym wedi colli cyfaill ac ymgyrchydd mawr, ond mae wedi gadael etifeddiaeth ac esiampl wych i ni yn ei waith dros heddwch a chyfiawnder."*

Dywedodd Ray Davies, Is-gadeirydd CND Cymru a Chynghorydd Llafur yng Nghaerffili:

*"Mae gan bob gwlad ei harwyr, ac rydym yn ffodus mai un o'n rhai ni yw Gwynfor Evans, heddgarwr a oedd â gweledigaeth o fyd yn byw mewn heddwch a chyfiawnder. Roedd yn weriniaethwr ac yn rhyngwladwr mawr a wyddai mai'r unig ffordd y ceid rhyddid i Gymru oedd yng nghyd-destun rhyddid i'r holl bobloedd. Roedd yn caru Cymru a'i phobl, ond roedd hefyd yn caru'r byd. Byddwn yn gweld ei golli."*

gwrthwynebiad cydwybodol

# Arfer yr hawl i beidio â lladd

**Ar y 15fed o Fai, Dydd Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol, dadorchuddiodd Cadeirydd Cynefin y Werin, George Crabb, garreg goffa i wrthwynebwyr cydwybodol Cymru yn yr Ardd Heddwch yn y Deml Heddwch, Caerdydd. Dathlwyd Dydd Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol am y tro cyntaf ym 1982 fel ffocws i'r ymgais i sefydlu'r hawl i wrthwynebu lle nad yw'n bod, ac fel cefnogaeth i wrthwynebwyr ym mhob man.**

**Mae'r garreg yn dwyn yr arysgrif dwyieithog:**
***Os mai'r hawl i fywyd yw'r hawl ddynol gyntaf, yr un y mae pob hawl arall yn ddibynnol arni, mae'n rhaid mai'r hawl i wrthod lladd yw'r ail.***

## Aberth


Wrth i lawer o bobl yng Nghymru gofio aberth milwyr a dinasyddion cyffredin fel ei gilydd yn ystod yr Ail Ryfel Ryd, mae'r gofeb hon hefyd yn coffáu'r rhai a wrthododd ladd – er gwaethaf gwarth, carchar neu farwolaeth, hyd yn oed. Mae'n hen bryd fod gan Gymru symbol sy'n cydnabod eu gwrhydri. Bu'n rhaid i'r rhai a wrthododd ymladd adeg y Rhyfel Byd Cyntaf ddioddef sarhad a chaledi anhygoel. Collodd llawer eu swyddi ac fe'i danfonwyd i'r carchar gyda llafur caled, a bu farw llawer ohonynt. Fe gawson nhw a'u teuluoedd eu diarddel a dioddef sen ofnadwy. Pasiodd un ar bymtheg o gynghorau sir gynnig yn gwahardd cyflogi unrhyw wrthwynebwyr. Er gwaethaf hyn i gyd, dilynodd y gwrthwynebwyr eu cydwybod a glynu'n gadarn wrth eu cred mewn heddwch a chyd-ddyn.

## Sail wleidyddol

Roedd y diweddar Lance Rogers, Merthyr yn nodweddiadol o Wrthwynebwyr Cydwybodol Cymru. Cafodd hawl i fod yn wrthwynebydd cydwybodol yn y lle cyntaf ar *sail wleidyddol*, ond achosodd ASau Toriaidd stur yn Nhw'r Cyffredin pan glywson nhw hynny a chafodd y penderfyniad ei ddileu. Aed ag ef i farics Aberhonddu a'i orfodi i wisgo lifrai milwrol. Er mwyn ennill statws GC, roedd yn rhaid iddo ddianc, ac fe gerddodd o Aberhonddu i Ferthyr. Fe'i cymerwyd i'r ddalfa gan yr heddlu, a'i arwain drwy'r dre a'i draed mewn cyffion er mwyn ei waradwyddo. Ond pan ddaeth y rhyfel i ben, etholwyd Lance Rogers â mwyafrif anferth fel yr Aelod Llafur Annibynnol cyntaf ar Gyngor Sir Frycheiniog, lle cynrychiolai ward Cefn Coed y Cymer.

## Byd gwell

Heddiw, mae miloedd o Wrthwynebwyr Cydwybodol ym mhedwar ban y byd. Un o'r rhai mwyaf nodedig yw mudiad Refusenik Israel, lle mae cannoedd o fyfyrwyr, milwyr wrth gefn a phobl broffesiynol yn gwrthod gwasanaethu yn y tiroedd dan feddiant ac, o ganlyniad, maent yn wynebu sawl cyfnod o garchar. Ymosododd rhywun yn eiriol ar Lance Rogers ar strydoedd Merthyr, gan ddweud, 'Pe bai pawb fel ti, byddai'r Almaenwyr wedi'n goresgyn ni.' Atebodd Lance yn ei lais tawel, addfwyn, 'Pe bai pawb fel fi, fydde 'na ddim Hitler na Natsïaid i'n goresgyn ni, a byddai'r byd yn well lle i fyw ynddo'.



**Roedd e'n hollol iawn!**

**Ray Davies**